



Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018

Y Lle Celf



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU



Noddwyr Balch Medal Aur am Bensaerniaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Cymru...wedi'i dylunio'n well

Cysylltwch â'r Comisiwn dcfw.org



Cynnwys Contents

3

Rhai Cwestiynau Hynod – o'r Gadair Some Extraordinary Questions – from the Chair Thomas Williams	4
Y Lle Celf 2018 David Alston	8
Sylwadau'r Detholwyr • Selectors' Statements Karen MacKinnon • Ingrid Murphy • Marc Rees	10
Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain • The Gold Medal for Fine Art	18
Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio • The Gold Medal for Craft and Design	20
Ysgoloriaeth Artist Ifanc • Young Artist Scholarship	22
Gwobrau Eraill • Other Awards	23
Arddangoswyr • Exhibitors	24
Pensaerniaeth • Architecture	35
Datganiad y Detholwyr Pensaerniaeth • Architecture Selectors' Statement Kay Hyde • Alun Jones	38
Ysgoloriaeth Bensaerniaeth • Architecture Scholarship Paul Harries • Sara Hedd Ifan	46
Ddoe + Heddiw: 80 Mlynedd o Gasglu Celfyddyd Gyfoes Cymru Then + Now: 80 Years of Collecting Contemporary Art for Wales	50
Y Senedd a Chelf • The Senedd and Art	54

4 Rhai Cwestiynau Hynod – o'r Gadair

Nid peth hawdd yw ysgrifennu rhagymadrodd i'r catalog hwn. I ddechrau, nid wyf wedi gweld yr arddangosfa y mae'r catalog yn cyfeirio ati eto a daw fy unig wybodaeth am yr hyn a gynhwysir ynnddi drwy ddyfalu ynglŷn â phwy fydd wedi ymgeisio a pha waith sydd wedi neu ddim wedi ei ddewis.

O gofio hynny, roedd hi'n ymddangos i mi mai'r peth mwyaf defnyddiol i'w wneud fyddai ysgrifennu ychydig am y broses a arweiniodd at greu'r catalog hwn a chynnig ychydig o fy sylwadau fy hun am yr Eisteddfod a'r Lle Celf.

Dydw i ddim yn credu fy mod yn gwybod yn iawn beth oedd yn digwydd pan fynychais y cyfarfod cyntaf mewn ysgol yng ngogledd Caerdydd. Roedd Sera a Catrin am fynychu ac roeddwn i'n meddwl y gallem fynd am ddiod wedyn.

Nid yw fy Nghymraeg i'n dda. O ran sgwrsio, rwy'n iawn. Rydw i hyd yn oed wedi llwyddo i grafu drwy ambell i daith oriel a gweithdy. Fodd bynnag, pan ddaw hi i iaith celf fiwrocraidd arbenigol, rwy'n cloffi. Ar y noson honno, fodd bynnag, llwyddais i ddeall digon am yr hyn oedd yn digwydd, buom yn sgwrsio dros beint, ac yn sydyn roeddwn yn aelod o Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn fuan wedyn cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y pwyllgor ac, yn ôl pob golwg, roedd angen Cadeirydd arnom; nid oedd yn dasg anferth ond roedd angen enw. Ambell i besychiad, gwingo mewn seddi, eistedd ar ddwylo, sylu ar y llawr, yna caf gic gan Sera o dan y bwrdd, mae Catrin yn gwneud llygad awgrymog arnaf o ben arall yr ystafell, ac yn sydyn fi yw'r Cadeirydd. Doedd gen i ddim syniad beth fyddai'n ei olygu, beth fyddem yn ei wneud, ond dyna ni, pam lai...

Rydw i wedi mynd trwy'r rhan fwyaf o'r broses ddilynol mewn ychydig o niwl. Yn rhannol, mae hyn oherwydd mater yr iaith (er dydw i ddim yn meddwl fy mod wedi gwneud yn rhy ddrwg) ond yn bennaf rwy'n credu, oherwydd fel Cymro a fu'n byw y tu allan i Gymru rhwng 6 a 53 oed, mae'r Eisteddfod Genedlaethol wastad wedi teimlo fel canolbwynt i fy nghenedligrwydd a'r lle i mi leoli fy hiraeth. Bum mlynedd ar ôl dychwelyd i Gymru rwy'n chwarae fy rhan, er cyn lleied fo hynny. Roeddwn i, ac rwy'n dal



Caroline Taylor
Trugaredd / Knick-knack

felly, wedi fy synnu braidd y gadawyd fi i mewn i'r ystafell hyd yn oed.

Ond dyna ni, dyna wnaethon nhw.

Prif ddiben y stori hon, rwy'n credu, yw ei bod yn dangos pa mor hygyrch yw celf a'r celfyddydau yng Nghymru. Yr hygyrchedd a'r ddemocratiaeth. Tybed a oes yna unrhyw ddathliad mawr arall o'r celfyddydau, cenedlgarwch, cenedlaetholdeb ac iaith sydd ar gael i bawb yn y genedl fel yr Eisteddfod Genedlaethol.

Nid yw cynnwys iaith yn y rhestr hon, gyda llaw, yno i beri rhaniad nac wedi'i fwriadu i gau allan. Mewn byd lle mae'n ymddangos bod grymoedd pwerus yn benderfynol o leihau gwahaniaeth, dylai goroesiad y Gymraeg fod yn achos dathlu i bawb ohonom, beth bynnag fo'r geiriau a ddefnyddir gennym i gyfathrebu.

Mae bod yn rhan o'r Eisteddfod wedi bod yn siwrnai, i mi ac aelodau eraill yr is-bwyllgor, y detholwyr a'r artistiaid sy'n gysylltiedig. Teimlaf ei bod hi'n rhyfeddol y gwneir y siwrnai hon bob blwyddyn, bod y cyffro, yr archwilio, y darganfod, y creadigrwydd ac, weithiau, y rhwystredigaeth yn digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dim Biennales i ni!

Eleni, fel pob blwyddyn arall rwy'n siŵr, rydym wedi wynebu rhai heriau penodol:

Nid oes gan Eisteddfod Caerdydd Faes traddodiadol ac mae'r 'Maes' wedi bod yn un o




James Moore
'Dream Cargoes'

elfennau allweddol yr Eisteddfod, hyd eleni. Pwy o'r rheiny sydd wedi ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol mewn blynyddoedd blaenorol sydd heb drefnu i gwrdd â ffrindiau ar y Maes neu wedi trafod cryfderau neu wendidau'r Maes o gymharu â'r flwyddyn flaenorol?

Sut ydym ni, yn yr arddangosfa arbennig, yn adlewyrchu lleoliad unigryw Y Lle Celf? A sut yr ydym yn trafod ymgorffori Y Lle Celf i graidd ein Llywodraeth yn adeilad y Senedd? Mae'r pwyllgor wrth ei fodd bod Megan Broadmeadow wedi cytuno i ateb y cwestiwn cyntaf. Gan weithio gyda chymunedau lleol ac artistiaid eraill yng Nghaerdydd, mae hi, wrth i mi ysgrifennu fy lllith, yn datblygu Arddangosfa Arbennig na welwyd mo'i thebyg. Bydd arddangosfa Carnifal y Môr yn sicr yn ddathliad.

Sut gallwn ganfod ffyrdd i adlewyrchu amrywiaeth, cynnydd, bwrlwm, yn ogystal â hanes, ein priiddinas? Ymhlith pethau eraill, sut gallwn ddathlu goroesiad sefydliadau celfyddydol yng Nghaerdydd? Cynhelir ein Heisteddfod yn yr un flwyddyn ag y mae g39, oriel fawr ac adnodd a gynhelir gan artistiaid, yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed. Mae Made in Roath, yr ŵyl gelfyddydau ryfeddol, hynod leol a bywiog iawn yn 10 oed. Mae Oriol Canfas yn Nhreganna, sy'n cael ei chynnal gan gydweithfa o artistiaid, wedi goroesi i fod yn 40



Gethin Wyn Jones
Dirgelwch pur / You're a mystery to me

oed. Mae Ffotogallery, y sefydliad a leolir yng Nghaerdydd sy'n cefnogi ffotograffiaeth a chyfryngau seiliedig ar lens, hefyd yn 40 oed eleni a bydd yn agor gofod oriel newydd yng nghanol y ddinas yn fuan. Dyma ddeholliad bychan o'r pen-blwyddi y gwn i amdanynt. Yna ceir Arcêd Caerdydd gyda'i ofod newydd Campfa, Rat Trap, Spit and Sawdust, mae Chapter yn dal i ddarparu gwasanaeth pwysig, mae oriel TEN, a'r orielau masnachol, Kooywood a Martin Tinney i gyd yn parhau er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol a phwysau anghyffredin ein cyfnod. Dydw i heb ddechrau sôn am y stondinau dros dro, a'r arddangosfeydd unwaith yn unig, y gwyliau, Lle Gallery, Caerdydd Gyfoes, y stiwdios agored... mae'r rhestr yn ddiderfyn.

Felly, rwy'n gobeithio ein bod wedi ymdrin yn dda â rhai cwestiynau hynod. Mae llawer nad ydym wedi ei wneud. Felly y mae hi bob amser. Ond drwy wneud yr hyn a wnaethom, rwy'n gobeithio ein bod wedi llwyddo i gynrychioli rhywfaint o'r cyffro a deimlir gan bawb sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, yn ein his-bwyllgor, yn strwythur ehangach yr Eisteddfod ac ar draws Cymru gyfan. Cyffro ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd a chyffro am yr hyn sydd i ddod.

Thomas Williams
Cadeirydd
Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol

6 Some Extraordinary Questions – from the Chair

Writing an introduction to this catalogue isn't, it seems to me, a straightforward thing to do.

For a start, I haven't yet seen the exhibition that the catalogue refers to yet and my only knowledge of what it will contain comes from guesswork about who will have submitted and what work may or may not have been selected.

Given that, it seemed to me that the most useful thing to do would be to write a little bit about the process that has led up to the creation of this catalogue and to offer a few of my own thoughts about the Eisteddfod and Y Lle Celf.

To begin at the beginning, I don't think I really knew what was going on when I went to that first meeting in a school in north Cardiff. Sera and Catrin were going and I thought we might go for a drink afterwards.

My Welsh is not good. Conversationally, I'm fine. I've even managed to limp through a couple of gallery tours and workshops. But, when it comes to specialist bureaucratic and art speak, I flounder. On that evening though, I got enough of what was going on, we chatted over a drink, and suddenly I'm on the Visual Arts Sub-committee of the Cardiff National Eisteddfod. The first meeting followed soon afterwards and, apparently, we needed a Chair; not a big deal but we have to have a name. Coughs, shuffles, sitting on hands, a distinct lack of eye contact, then Sera kicks me under the table, Catrin nods at me from the other side of the room, and I'm it. Without a clue about what it entails, about what we'll do, but, well, why not...

I've gone through most of subsequent process in a slight daze. Partly, this is because of the language thing (although I don't think I've done too badly) but mostly, I think, because, as a Cymro living away from Wales between the ages of 6 and 53, the Eisteddfod Genedlaethol has always felt like a focus for my nationality and the place for me to site my hiraeth. Five years after arriving back in Wales and I'm playing my part, in however small a way. I was, still am, slightly baffled that they would even let me in the room.



Anna Lewis

'Mae hi'n dangos ei hun' / 'Elle se montre'

But there we go, they did.

The main point of this story is, I think, that it speaks of the accessibility of art, of the arts, in Wales. The accessibility and the democracy. I wonder if there is another major national celebration of the arts, of nationhood, of nationality and, of language, which is as available to everybody in the nation as the National Eisteddfod.

The inclusion of language on this list, by the way, is not divisive or intended to exclude. In a world in which powerful forces seem intent on ironing out difference, the survival of Cymraeg is, should be, a cause of celebration for all of us, regardless of the words we use to communicate.

Involvement in the Eisteddfod has been a journey, for me and for the other members of the



Casper White

Mae e jyst yn teimlo'n ych / It just feels gross

sub-committee, the selectors and the artists involved. I find it extraordinary that this journey is repeated every year, that the excitement, exploration, discovery, creativity and, sometimes, the frustration, happens year after year. No Biennales for us!

This year, as I'm sure every year, we have had some particular challenges:

The Cardiff Eisteddfod has no Maes in the usual sense and "the Maes" is one of those, until now, key Eisteddfod concepts. Who, of the people who have visited the Eisteddfod Genedlaethol in previous years, has not arranged to see friends "on the Maes" or discussed the relative merits of the Maes this year compared to last?

How do we, in the special exhibition, reflect the unique location of Y Lle Celf? And, how do we negotiate incorporating Y Lle Celf into our centre of government at the Senedd? The committee is delighted that Megan Broadmeadow has agreed to answer the first

part of this question. Working with local communities and other artists in Cardiff, she is, as I write, developing an Arddangosfa Arbennig like no other. Carnifal y Môr will, literally and metaphorically, make quite a splash.

How do we find ways to reflect the diversity, the progression, the vibrancy, as well as the history, of our capital city? Amongst other things, how do we celebrate the survival of arts organisations in Cardiff? Our Eisteddfod is happening in the same year that g39, a major artist run gallery and resource, celebrates its 20th birthday. Made in Roath, that extraordinary hyper-local, super-vibrant arts festival is 10. Oriel Canfas in Canton, run by an artists' cooperative, has survived to be 40. Ffotogallery, the Cardiff based organisation supporting photography and lens based media, is also 40 this year and opens a new, city centre, gallery space. This is just a small selection of the birthdays I know about. Then there's Arcade Cardiff with its new space Campfa, Rat Trap, Spit and Sawdust, Chapter carries on providing an important service, TEN, and the commercial galleries, Kooywood and Martin Tinney all of which continue in spite of the extraordinary financial constraints and pressures we live under. I haven't even started on the pop-ups, the one-offs, the festivals, Lle Gallery, Cardiff Contemporary, the open studios...the list goes on.

So, some extraordinary questions which, I hope, we have dealt with well. There is much which we have not done. Of course, there always is. But in doing what we have, I hope that we have managed to represent something of the excitement felt by all of those involved with the arts, in our sub-committee, in the wider Eisteddfod structure and across all of Wales. Excitement about what is happening and excitement about what is to come.


Thomas Williams

Chair

Visual Arts Sub-committee

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Y Lle Celf, oriel 'pop up' yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi ymddangos mewn nifer o lefydd 'safle benodol', megis yng nghaeau amrywiol Y Fenni, Llanelli, Bodedern, a hyd yn oed yn ehangder tanddaearol hen fyncer diwydiannol yng Nglyn Ebwy. Yn y flwyddyn pan fo'r Eisteddfod gyfan yn ysgwyddo ethos rhyw 'pop-up' cynhwysol mae Y Lle Celf yn ymddangos yn y gofod mwyaf heriol posib o ran trefniadau ond hefyd un o'r llefydd mwyaf arwyddocaol i ni fel cenedl, sef adeilad y Senedd. Nid peth dieithr yw celf yn y ddeddfwrfa hon, comisynwyd celf ar gyfer gwedd yr adeilad ei hun, arwydd o'r tryloywder sydd ei angen ar ein sefydliadau cyhoeddus. Cred rhai gwledydd y dylai celfyddyd fod yn gefnlen gyson i'w trafodaethau, yn ddylanwad gwaraidd ond hefyd yn fodd i'w herio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynnig rhodd ddwyffordd i'r Senedd Fflemaidd o ddarlun gan y diweddar Osi Rhys Osmond, delwedd sy'n fawl i'r tirwedd ond hefyd yn alarnad i greithiau rhyfel neu ddinistr amgylcheddol - penderfyniadau sy'n faen felin ar ysgwyddau llywodraethwyr pob cenedl - bach a mawr. Mewn rhai amgylcheddau gwleidyddol, mae celf yn ddrych mor rymus ar y gwir nes peri i wledyddion eu cuddio, megis yr achlysur pan orchuddiwyd brodwath *Guernica* Picasso ym mhencadlys Y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd.

Blwyddyn Cymru yw hi eleni yn yr Ŵyl Ryng-Geltaidd yn Lorient, Llydaw. Bydd *Pendevig* sef prosiect "super band" yn perfformio fel ei elfennau unigol, yn ogystal ag yn ei gyfanrwydd gorawenus. Byddant yn nodi'r penwythnos agoriadol yn Lorient ac yn dychwelyd i berfformio'n Eisteddfod Caerdydd. Yn Lorient hefyd bydd cyfle i weld *Cynefin*, arddangosfa o Gelfyddyd Weledol a gasglwyd ynghyd gan Chris Wilson, dyma ryw fath o "super-band" arall, y tro hwn yn llawn o artistiaid gweledol. Mae *Cynefin* yn cyflwyno rhai o gyn-enillwyr Medalau Aur yr Eisteddfod ac yn fwy perthnasol fyth o bosib yn ein dyddiau ni, bydd gwaith yr artist Ifor Davies yn ogystal â gweithiau cyn-enillwyr 'Gwobr Ifor Davies' yn cael eu harddangos. Yn 2002, defnyddiodd Davies y siec oedd yn rhan o wobwr y Fedal Aur i sefydlu gwobr newydd ar gyfer gwaith y arddangosfa



Justine Allison

Symudiad, ffurf a ffordd / Movement, way and form

agored Y Lle Celf sy'n ei dyb ef, yn cyfleu ysbryd gweithredu a'r frwydr i warchod y Gymraeg, diwylliant a gwleidyddiaeth.

Ar Faes Eisteddfod Y Fenni, bu Will Gompertz, gohebydd Celfyddydau'r BBC yn rhyw bendroni ar ein cenedl, a thybiodd mai'r agosaf y daw'r genedl honno at greu Amgueddfa Gelfyddyd Gyfoes yw mewn digwyddiad blynyddol, dros dro, ble mae celf fentrus a heriol yn cael ei gasglu, a hynny, yn llythrennol mewn cae yng nghefn gwlad. A'r hydref hwn bydd y sgwrs honno ynghylch cael lle parhaol ond newidiol ar gyfer celfyddyd fyw yn tanio unwaith eto, ac yn cael ei thrafod ar lawr y Senedd ei hun. Mae angen i Gymru fynd i'r afael â'r pwnc a bydd rhaid i unrhyw ddatrysiad gynnwys llawer o'r nodweddion a welir eleni yn yr arddangosfeydd ar y Maes ac yn Lorient. Fel y llefydd hyn, bydd yn ofod ar gyfer celfyddyd weledol, llawn angerdd, yn lle ar gyfer trafodaethau, lle poblogaidd, lle pryfoclyd ond un i fynd i'r afael â phethau hefyd, sy'n trafod ein ffawd ein hunain ond yn ymwybodol bod y themâu sy'n lleol i Gymru, hefyd yn rhai byd-eang a perthnasol.

Mae Cymru angen y gofod hwn ar gyfer ei chelf weledol.

David Alston

Cyfarwyddwr y Celfyddydau
Cyngor Celfyddydau Cymru



Billy Bagilhole

Dynion gwyllt / Wild men

In recent memory, Y Lle Celf, the pop-up gallery of the National Eisteddfod, has sprung up in some "site specific" places, ubiquitous in the varied fields of Abergavenny, Llanelli, Bodedern and even the subterranean vastness of an obsolete industrial bunker in Ebbw Vale. In a year when the Eisteddfod as a whole adopts the ethos of the inclusive pop-up, Y Lle Celf appears in the most logistically challenging and resonant of national spaces - the Senedd. Art has never been far from this seat of legislature, in its fabric from the start with commissions based on the transparency of what good government should be. Some countries believe that legislators should have art continuously as a back drop, as a civilising influence but also as a provocation. In the last year, the Assembly here has proffered a reciprocal gift to the Flemish Parliament of a painting of the late Osi Rhys Osmond, an image, both hymning a landscape and lamenting its violation through conflictual or environmental degradation - all decisions that weigh heavily on any legislature

in nations great or small. In some political environments the art speaks truth so loudly to politicians, it has to be covered up, as on occasion Picasso's *Guernica* tapestry in the Headquarters of the United Nations in New York, has been.

This year is also the Year of Wales in Brittany's Interceltic Festival in Lorient. The formation of *Pendevig* a Festival project "super band", in its constituent parts and its new boisterous whole, will mark the opening weekend in Lorient and later in the week appear back in Cardiff in the Eisteddfod, whilst the visual Arts exhibition in Lorient, curated by Chris Wilson and entitled *Cynefin*, brings back into one place a parallel "super-band" of visual artists. *Cynefin* presents past Gold Medal winners at the Eisteddfod and perhaps even more pointedly for our times, Ivor Davies's own work and a selection of artists who have been 'Ivor Davies Prize' winners. In 2002, Davies dedicated his Gold Medal cheque to founding an award each year for that work in the Y Lle Celf open exhibition which best conveys the spirit of activism in the struggle for Welsh language, culture and politics.

In the Abergavenny Eisteddfod, the BBC frontman for all things cultural, Will Gompertz, mused on a nation, whose closest stab at a National Contemporary Art Museum seemed to be a temporary coming together of the cutting edge of art, literally, in a field in the country. And this autumn, that debate about a permanent but changing place for living art will again be a focus for attention and debate not least in the Senedd itself. Wales needs to resolve this and the solution it finds will need to embrace many of the characteristics of the exhibitions on the Maes and in Lorient this year. A place for visual art of passion, debate, a popular place, a provocative and engaged space, talking of ourselves but knowing that what is local to Wales is also global and relevant.

Wales needs that space for its visual arts.

David Alston

Arts Director
Arts Council of Wales

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

Mae'r broses ddehol bob amser yn ymwneud â dod o hyd i waith sy'n datgan lle rydym ar hyn o bryd, yr eiliad hon, yn y diwylliant hwn, yn y byd rydym yn byw ynddo. A'r hyn y mae'r gwaith yn ei ddweud wrthym am rywbeth mewn ffordd nas gwelsom o'r blaen.

I bob detholwr hon oedd prif ystyriaeth y broses o ddehol. Mae Arddangosfa Agored yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Lle Celf bob amser yn eiliad mewn amser, saib blynyddol metronom ymarfer artistig Cymru, cyfle i roi trosolwg ar ymarfer presennol, i aros, edrych a myfyrio, ac efallai hyd yn oed ddychmygu dyfodol.

Fel detholwyr mae'r her honno'n gymhleth, mae dewis llai o artistiaid a gwneuthurwyr o blith cannoedd o ymgeiswyr cryf yn dasg anodd ynddi'i hun. Ond i ychwanegu at y cymhlethdod arferol hwn, mae arddangosfa eleni wedi'i lleoli yn y Senedd. Dyma safle o gyfoeth pensaernïol ac ystyriaethau gwleidyddol sy'n cynnig ystod o gyfleoedd a heriau nas ceir yn lleoliad traddodiadol arferol y safle dros dro ar y Maes.

Mae panel o dri detholwr yn galluogi i unrhyw anghydweld gael ei ddatrys yn gyflym, ac yn wir ni chafwyd llawer. Fodd bynnag, gyda thri detholwr o gefndiroedd amrywiol a phob un â'r un duedd i fod yn eiriog, cafodd pob penderfyniad ei drafod yn frwd ac yn faith; gan arwain at fewnwelediadau traws-ddisgyblaethol hyfryd a bil coffi go fawr dros ddyddiau o ystyried. Er i ni rannu'r un briff o'r dechrau cafodd y lleoliad ei hun wahanol effaith ar ein proses ddehol unigol. I ddechrau roedd y gofod yn golygu llai i Karen MacKinnon sydd o'r farn 'bod gwaith da wastad yn dod i'r wyneb, a'r gobaiith yw y bydd yn cryfhau ymhellach pa ofod bynnag y byddwch yn ei roi ynddo.'

Roedd Ingrid Murphy yn gogwyddo tuag at waith oedd yn ceisio creu deialog gyda dyluniad a nodweddiad cryf amgylchedd yr arddangosfa, tra bod Marc Rees yn llwyr ymwybodol o islais gwleidyddol y gofod a'i afael neu ei effaith bosibl ar y gwaith a ddeholwyd.

Wedi ymweld â'r Senedd cyn, yn ystod ac wedi'r gwaith o ddehol, yn y bôn ni wnaeth ddyllanwadu'n ormodol ar y broses ond fe fydd,

wrth gwrs, yn dylanwadu ar ganfyddiad. Gan ei fod wedi'i gysylltu â chalon llywodraeth, gellir yn hawdd ddehongli'r gwaith yn rhywbeth gwleidyddol, hyd yn oed os nad dyna'r bwriad. 'Bydd y gwaith yn anochel yn dod yn wleidyddol drwy'r cyd-destun,' yn ôl Marc Rees.

Nid y ffaith yn unig bod y safle yn gartref llywodraethu ond y ffaith ei fod yn adeilad sy'n datgan yn uchel am ei ddyluniad a'i adeiladedd ei hun. Mae pensaernïaeth Richard Rogers yn tystio i werthoedd defnydd cryf ac egwyddorion strwythurol. Gyda'i ehangder anferth o wydr, y to cromen enfawr mae'n balimpsest o'i wneuthuriad dyluniol ei hun, mae'n wrthgyferbyniad felly i gynfas gwag y ciwb gwyn. Ni ellir cystadlu gyda'r fath adeilad ond gellir derbyn ysbrydoliaeth o'i ethos, ac mae rhai gweithiau yn yr arddangosfa yn traethu gyda'r un iaith frodorol.

Mae llestri manwl Steve Buck a weithiwyd â llaw a'i deyrngarwch i'w tarddiad bron yn adlewyrchu ceugrymedd modylaidd y to sydd uwch eu pen. Yn yr un modd mae effeithiau gweledol rhithiol cerameg addurnedig Jin Eui Kim yn atseinio gweddau llinellol tonnog yr adeilad. Yn eu tro mae ffurfiau metel bwrw Cath Fairgrieve ac Andy Griffiths yn cyfleu'r bensaernïaeth a'r gofod sydd ynddo, er bod hynny drwy arteffactau ar raddfa ddomestig. I'r gwrthwyneb mae blwch â chaead Laura Lillie yn fyd ar ffurf fechan, mae'n rhoi i chi rym duw hollalluog wrth i chi godi pob caead a syllu ar y gwagleoedd haniaethol, sy'n awgrymu tirlun neu berfedd. Mae'r cyfansoddiadau hyn a grëwyd yn hardd ar ffurf negyddol a nodweddiad defnydd yn awgrymog ond fyth yn ddidactig, gyda'r caeadau pwysedig yn sicrhau na allwch ond gweld un neu ddau ar y tro, mae'n rhaid i un byd gau er mwyn gweld un arall.

Felly o ystyried golygweddau ar fydoedd eraill a chyd-destun gwleidyddol y gofod nid yw'n syndod mai'r gwaith cyntaf a welch wrth fynd i mewn i'r arddangosfa yw 'Model Synthetig ar gyfer Economi Ôl-gyfalafol mewn Bydysawd Cyfochrog', André Stitt. Mae gweld y gwaith hwn yn y Senedd yn wir bryfoclyd gan fod y teitl yn cyfeirio at fethiant cyfalafiaeth. Mae'r artist yn



André Stitt

Model synthetig ar gyfer economi ôl-gyfalafol mewn bydysawd cyfochrog / Synthetic model for a post capitalist economy in a parallel universe

cynnig model amgen i ni, model dyfodol ôl-gyfalafol wedi ei lunio neu ei gynhyrchu mewn bydysawd cyfochrog. Mae André Stitt yn atseinio'r traddodiad hir o artistiaid a llenorion sydd wedi creu bydysawdau cyfochrog i ddangos y byd sy'n bod a hefyd archwilio beth sy'n bosibl. A welwn yn y gwaith hwn ddyfodol iwtopaidd, dinaslun rhithiol? Fel y darn mynediad i weddill yr arddangosfa mae'n cynnig y cyfle i'r sawl a wêl y gwaith i symud drwy dir Lilipwtaidd a dychmygu dyfodol newydd yng nghartref ein llywodraeth, dinas newydd a bywyd pob dydd newydd.

Mae gwaith André Stitt hefyd yn ymwneud â'r union ddeunyddiau sy'n ein hamgylchynu yn ein dinasoedd, y strydoedd, ffyrdd, tai sy'n llunio ein hamgylcheddau trefol ac yn ail-ddychmygu'r gofodau hyn. Ceir artistiaid eraill yn yr arddangosfa hon y mae eu gwaith yn ystyried gwleidyddiaeth a barddoniaeth deunyddiau mewn gofod. Mae Kelly Best yn troi ei lluniadau yn gerfluniau 3D sy'n sefyll rhywle rhwng lluniad a helaethwyd a cherflun, heb ymddiheuro am feddiannu gofod - fel cerddi rhwng gofodau adeiledig ein bywyd bob dydd. Mae'r synergedd rhwng Kelly Best a Mark Houghton yn amlwg iawn. Mae'r ddau yn chwilio am elfennau a ddiystyriwyd yn ein dinasluniau a'n tirweddau. Mae'r ddau yn gwrthod ac yn torri ar draws elfen anorfod bywyd bob dydd y cyfeiria Mark Houghton ati fel "gallu barddoniaeth weledol y syml i ddyrchafu amherthnasedd y cyffredin." Mewn

byd lle mae'n systemau gwleidyddol yn methu a ninnau'n ceisio goresgyn pynciau anferth yn ein hamgylcheddau trefol megis darparu tai cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus, mae'r farddoniaeth hon yn rymus gan ei bod fel petai'n ceisio ail-ddelweddu ffyrdd newydd o gyfanheddu a byw.

Mae'r pob dydd yn thema sy'n amlygu drwy'r arddangosfa, ceir llawer o waith sy'n dathlu'r syml bydol, sy'n gwneud y cyffredin yn anghyffredin. Gellir gweld hyn yng ngwaith John Rowley sy'n defnyddio gweddillion domestig cyfarwydd i gipio hunanbortreadau dan fwgwd ar ffôn - dyddiadur uwch-arwr y gwrthrych cartref a daflwyd - neu sy'n amlwg yn nelweddau Gethin Wyn Jones a gynhyrchwyd yn gain a hudol o sigarêts a minlliw, neu'r olygfa ddomestig sydd newydd ei gadael gan Zoe Preece o fwrdd gwag ac offer cegin a bentyrwyd.

Fodd bynnag, mae yna elfen 'pob dydd' i'r arddangosfa hon sy'n sôn am ddieithrwyd, golygfeydd picnic aneglur Jo Berry sy'n cyfleu hiraeth a hefyd beth malais, heb sôn am bennau a anffurfiwyd ac a ddilëwyd yng ngwaith portreadu Nerea Martinez de Lecea. Daw'r plant a ddarlunnir yma o ddelweddau a godwyd o gatalogau dillad. Mae'r artist i ddechrau yn chwilio am wisgoedd penodol fel y ffrog cymundeb ond wedyn mae'n rhaid i'r osgo fod yn iawn, osgo'r corff yw popeth - heb eu pen mae'r cliwiau i bersonoliaeth ac emosiwn i gyd yng nghorff y gwrthrych nas adwaenir. Caiff eu cyffredinedd yna ei drawsffurfio gan yr artist yn rhywbeth arallfydol a dieithr o hardd. Mae'r portreadau yn baentiadau digidol unwaith yn unig, wedi'u creu gan ddefnyddio Photoshop, yn gweithio gyda lliw iflat ac offer brwsh yn hytrach na deunydd ffotograffig. Gwna Nerea Martinez de Lecea balet o liwiau ar y 'dudalen' ac wrth ddefnyddio offer brwsh mae'n ychwanegu, symud, cyfuno a phaentio'r ddelwedd mewn aml-haenau gan ei adeiladu fel y byddai paentiwr 'go iawn' yn ei wneud. Yma mae'r testun cyffredin iawn hwn o fywyd bob dydd yn cael ei darfu arno. Daw'r gwaith yn seicolegol drwm ac yn annaeorol, ac mewn rhai enghreifftiau yn waith sy'n ymylu ar y swreal a'r pantomeimaid.

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

Mae'n ddiddorol gweld y fath dystiolaeth o'r annaeorol yn yr arddangosfa, oherwydd yr annaeorol yw pethau bob dydd a aeth yn ddiethr, y pethau bob dydd sydd bellach yn annirnadwy. Fel detholwyr fe'i gwelwn yn glir fel arwydd o'r amserau, mae'n dweud wrthym am y lle yr ydym ynddo ar hyn o bryd.

Wrth edrych ar faterion cyfoes byddai'n esgeulus i beidio ag edrych ar y gynrychiolaeth o ran rhyw o fewn yr arddangosfa. Er bod y cydbwysedd yn gyfartal ymhlith yr arddangoswyr, mae pob un o'r enillwyr yn fenywod a thra bod hyn wedi digwydd drwy haeddiant yn hytrach na bwriad, fel sydd gydag unrhyw arddangosfa gyfoes mae thema ffeministaidd gref a chwareus ar brydiau yn amlwg ynddi.

Yn ffilmiau Adele Vye a Jennifer Taylor cawn y fenyw unig yn y tirlun. Rhyw fath o fenyw fytholegol yn brwydro gyda'r elfennau. Yn ffilm gref Adele Vye gwelwn hi'n ymgiprys gyda haenau o ffabrig, mae'n teimlo'n ddefodol, mae gwir harddwch yma ond hefyd mae'n mynegi galar, efallai chwalfa bywyd y dosbarth gweithiol ôl-ddiwydiannol. Mae teimlad o anobaith ac oferedd yn ei gweithgaredd gwyllt. Yng ngwaith Jenny Taylor gwelwn fenyw yng nghanol natur, ond yma gwelwn hi gyda'i ffurf bogeiliol, yn gwingo, yn ymgorddeddu ac yn cael ei geni. Eto gwelwn ffigur matriarchaidd ond y tro hwn mae'n ddyfodolaidd, mae'n fath gwahanol o fenyw a ddychmygir, menyw y dyfodol ond ddim ond mewn ffurf heb nodweddion wyneb, estron yng nghlwm wrth heneb neu wrth dirnod yn impio i'w hanes.

Fodd bynnag, ceir hefyd bresenoldeb gwrywaidd clir iawn o'r gorffennol, samplu sain pregethau gan Glyn Roberts sydd â'r teitl Pregeth. Yn y darn sain hwn ceir ymdeimlad o'r 'hwyl' a brofwyd ac a fynegwyd gan bregethwyr efengylaidd y gorffennol, y llais gwrywaidd a dominyddol y gymuned, sy'n dweud am agwedd berfformiadol diwylliant a chymdeithas y capeli Cymreig a'r nerth emosiynol o'u mewn. Er ein bod yn edrych drwy lygad hiraeth mae gwaith Glyn Roberts yn ein hatgoffa nad yw cymunedau yn dod ynghyd bellach, a thra nad ydym yn dueddol mwyach i gael ein llorio gan



Ray Church

Arfau mawr / Big weapons

frwdfrydedd crefyddol, ceir rhyw fath o hiraeth am y gorffennol hwn, hiraeth am eu gobaiith a'u cred, collwyd yr agosatrwydd. Mae hyn hefyd yn adrodd am newid - gwnaed y samplau hyn o recordiadau o'r 1960au, efallai o fewn cof rhai a fydd yn ymweld â'r arddangosfa ond eto mae'n teimlo'n ddigyswllt llwyr â'r byd yr ydym yn byw ynddo nawr. Fel llawer o'r gweithiau yn yr arddangosfa hon codir cwestiynau am hunaniaeth. Wedi'u cyfod yn erbyn crefyddolder samplau Glyn Roberts, er enghraifft, ceir eitemau cerameg gan Ray Church. Yn ei waith mae'n cyfod delweddau rhywiol iawn ar gawgiau atig Gwlad Groeg. Rhwng y patrymau cain ar y gwaith cerameg hardd hwn, sy'n ffurfiol a choeth, gwelwn ddynion mewn trywsanau rhwylllog, dillad milwyr, wedi'u harfogi â gynnu a phidynnau â chodiad. Mae'r gweithiau hyn yn gableddus a chwareus, yn haerllug a phryderus yn eu gor-wrywod.

Yn gynnar iawn yn ein trafodaethau a'n hystyried cafodd y tri ohonom ein gwefreiddio gan waith Nerea Martinez de Lecea - enillydd Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain eleni. Mae gwaith yr artist yn pontio ffotograffiaeth, fideo, gosodiad, amlgyfrwng a lluniadu. Ceir dawn wirioneddol yn ei gweithiau sydd wedi eu creu'n harddwch, y cyfeirir atynt ganddi fel paentiadau digidol. Crëir y 'paentiadau' drwy osod lliw fflat yn haenau ar yr arwyneb a defnyddio offer brws i ychwanegu, cyfuno a symud y paent i ddynwared paentio 'go iawn'. Nid dim ond y cyflawniad dawnus ond y cynnwys rhyfeddol, y portreadu sy'n gwrthod dadlennu'r portread cyflawn. Gwelwn gyrff, dillad ac osgo'r person ond mae'r pen a'r wyneb wedi ei rwbio allan yn dreisgar. Mae rhywbeth sinistr yn y dileu hwn, yn enwedig gan fod llawer o'r portreadau hyn yn rhai o blant. Nid yn unig fod y berthynas rhwng y gwyliwr a'r ddelwedd yn cael ei tharfu arni ond hefyd y berthynas rhwng yr artist a'r model. Mewn byd o ystumio digidol mae ei gwaith yn codi cwestiynau am hunaniaeth, dilysrwydd a tharfu.

Tra bod Nerea Martinez de Lecea yn tarfu ar ac yn chwarae gyda ffurf draddodiadol portreadu a phaentio, mae enillydd yr Ysgoloriaeth Artist Ifanc eleni Gweni Llwyd wedi ymdrwytho'n llwyr yn y presennol. Drwy ei gweithiau fideo mae'n ein peledu ni gyda llwyth o ddelweddau sy'n ymddangosiadol ddigyswllt a naratifau o'n hoes ddigidol. Llyfrynnau cyfarwyddyd, lluniau o anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill, pethau blewog, pryfed, eiliadau dwfn, trosiadau o wryweidd-dra a benyweidd-dra wedi'u gosod gyda ac yn erbyn ei gilydd. Mae fel petai'n ceisio gwneud synnwyr a churadu'r llwyth o wybodaeth rydym yn palu drwyddi bob dydd i greu ystyron a llwybrau newydd i wahanol ffyrdd o weld. Mae'n artist ifanc heriol sy'n adnabod byd heddiw i'r dim ac roeddem yn awyddus iawn i'w chefnogi wrth iddi symud ymlaen gyda'i harchwiliadau.

Mae pob un o enillwyr eleni rywfodd yn sôn am y gofod rhwng pethau - boed yn waith Nerea Martinez de Lecea lle mae'r bylchau rhwng ffurfiau confensiynol portreadu yn troi'n haniaethol gyda'r pennau a ddilëwyd, neu waith Gweni Llwyd sy'n chwilio am ystyr yng

nghanol toreth o ddelweddau'r rhyngwryd. Mae enillydd Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio, Zoe Preece yn cynnal y thema hon, ond yn ei hymarfer hi y bwllch yn y domestig sy'n dod yn ofod ei harchwiliadau. Yn y gwaith 'Presenoldeb Materol' mae fel petai gofod domestig pob dydd y gegin wedi dod yn lledrithiol - llwy yn crogi yn yr aer, yn llawn i'r ymylon, cwpanau wedi eu llwytho'n sigledig yn barod i gwmpo a malu'n deilchion, mae cytleri a chyllell yn rhan o'r bwrdd pren wedi'u hasio, ac nid ar wahân iddo. Fel llawer o'r gweithiau yn yr arddangosfa hon mae rhywbeth annaeorol am y sefyllfa ddomestig y mae'n ei chreu. Mae gwaith Zoe Preece wedi'i greu yn goeth ac mae ei elfen ddomestig i'w weld ar unwaith ond eto wedi'i darfu arno, nid yw pethau'n hollol iawn, llwyau yn crogi yn yr aer, offer cegin wedi dod yn rhan o'r bwrdd ac mae diffyg pobl yn awgrymu ein bod yn dystion i'r eiliad ar ôl y parti neu fod rhywbeth brawychus wedi digwydd.

Drwy eu gwaith mae artistiaid Arddangosfa Agored eleni yn dweud am y lle'r rydym yn awr, yr eiliad hon, y byd hwn. Ac er bod hwn yn edrych fel detholiad o bethau cwbl digyswllt, ceir themâu allweddol sy'n rhedeg drwy'r siwrnai o un gwaith i'r nesaf. Mae'r chwilio am ystyr ac am rymusiad yn ein bywydau bob dydd yn treiddio drwy'r gweithiau hyn i gyd, ac mae'r cwestiynau yn atseinio'n uchel drwy'r Senedd. Cwestiynau am hunaniaeth yn oes y dechnoleg ddigidol, myfyrdodau ar ddyfodol gofodau trefol a'n cymunedau ac ystyriaethau ynghylch pethau bob dydd a'r hiraeth hwnnw sy'n ein hannog nid dim ond i ganolbwyntio ar gynnydd ond i ystyried syniadau a ffyrdd o fyw o'n gorffennol a all ein helpu i greu dyfodol newydd a gwell. Mae llawer o'r artistiaid, fel y bydd artistiaid bob amser yn ei wneud, yn herio'r ffurfiau celf a dderbynnir yn gyffredinol - paentiad digidol, lluniad a helaethwyd, y ffiniau rhwng celf gain a chreffft. Ond efallai, yng nghyd-destun y Senedd, y berthynas rhwng barddoniaeth a gwleidyddiaeth sy'n fwyaf amlwg a diddorol ac mae'n rhoi gweir ychwanegol i detholiad eleni.

Karen MacKinnon, Ingrid Murphy, Marc Rees

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

The selection process is always about discovering the work which communicates where we find ourselves right now, this moment, this culture, in this world that we live. What is this work telling us in a way in which we have not seen before?

For each selector this was the key tenet of the selection process. The National Eisteddfod Open Exhibition at Y Lle Celf is always a moment in time, the annual stopping of the ticking metronome of artistic practice in Wales, a chance to provide an overview of current practice, to stop look and reflect, and perhaps even imagine a future.

As selectors that challenge is complex, to select fewer artists and makers from hundreds of strong applicants is a task in itself, but to add to this usual complexity, this year's exhibition is located in the Senedd. Here's a site of both architectural richness and political connotations which offers a range of opportunities and challenges not found in the traditional site of a temporary space on the Maes.

A selection panel of three makes for quick resolution of any disagreements, and in truth there were not many. However, with three selectors from diverse backgrounds all prone to verbosity in equal measure, every decision was energetically discussed at length; resulting in some wonderful cross disciplinary insights and a rather large coffee bill over days of deliberation. Although we shared the same brief from the outset the site alone had a different impact on our individual selection process, in the first instance the space mattered less to Karen MacKinnon who maintains, 'the strong work shines through, and hopefully whatever space you put it in the work becomes more charged.'

Ingrid Murphy veered towards work, which sought a dialogue with the strong design and material qualities of the exhibition environment, whilst Marc Rees was fully aware of the political undertones of the space and its potential empowerment or impact on the work selected.

Having visited the Senedd before, during and after selection, in essence it did not unduly influence the process but will, of course,



Jin Eui Kim

OPrych - Gwrthdroad VI / OPject - Inversion VI

influence perception. By being associated with the seat of government the work can easily be read as political even if that was not intended. 'The work will by default become politicised by the context,' insists Marc Rees.

It is not merely the fact that the site is the seat of governance but the fact that it is a building that speaks so loudly of its own design and construction. Richard Rogers architecture attests to strong material values and structural principles. With a huge expanse of glass, the vast dome roof of wood it's a palimpsest of its own design making and therefore the opposite to the blank canvas of the white cube. One cannot compete with such a building but one can draw inspiration from its ethos, and certain works in the show do speak with the same vernacular.

Steve Buck's methodically hand built vessels and allegiance to their material provenance almost

mirrors the modular concavity of the roof they sit beneath. The optical illusory effects of Jin Eui Kim's decorated ceramics similarly echo the undulating linear aspects of the building. Whilst the cast metal forms of Cath Fairgrieve and Andy Griffiths, speak of architecture and the space it contains, albeit through domestic scale artefacts. Conversely Laura Lillie's lidded box piece gives you a world in miniature, it affords you an omnipotent god like position as you lift each lid and peer at the abstract voids, suggestive of landscape or viscera, these beautiful executed compositions of negative form and material characteristics are suggestive but never didactic, the weighted lids ensuring you can only see one or two at any time, one world most close to view another.

So considering views of other worlds and the political context of the space it is therefore not surprising that the first work you encounter as you enter the show is André Stitt's 'A Synthetic Model for a Post-Capitalist Economy in a Parallel Universe'. To see this work in the Senedd is indeed provocative, as the title alludes to the failure of capitalism, the artist offers us an alternative model, a post-capitalist model future conceived or produced in a parallel universe. André Stitt echoes the long tradition of artist and writers who have created parallel universes to show the world that is but also to explore what is possible. In this work do we see our utopian future, a virtual cityscape? As the gateway piece to the rest of the exhibition it offers the viewer the chance to move through a Lilliputian land and imagine a new future in our seat of government, a new city and a new everyday.

André Stitt's work is also concerned with the very materials that surround us in our cities, the streets, roads, houses which form our urban environments and the reimagining of these spaces. There are other artists in this exhibition whose work considers the politics and poetics of materials in space. Kelly Best turns her drawings into 3D sculptures that stand somewhere between an expanded drawing and a sculpture, unapologetically taking up space - like poems between the constructed spaces of our everyday lives. The synergy between Kelly

Best and Mark Houghton is most evident. Both are searching for overlooked elements in our cityscapes and landscapes. Both refuse and disrupt the inevitability of the everyday of what Mark Houghton refers to as "a visual poetry of the commonplace to elevate the irrelevance of the ordinary". In a world in which our political systems are failing and we are attempting to overcome huge issues in our urban environments, such as the provision of social housing and public services, this poetry is powerful as it seems to attempt to reimaging new ways of inhabiting and living.

The everyday is also an emergent theme throughout the exhibition, there is much work which celebrates the mundane, that makes the ordinary extraordinary. This can be seen in the work of John Rowley using familiar domestic debris to capture masked self portraits on a phone - a diary of a superhero of the discarded household object - or evidenced in the exquisitely and seductively produced images of the cigarettes and lipstick by Gethin Wyn Jones, or the recently vacated domestic scene of Zoe Preece's empty table and stacked utensils.

St David's Hospice In-Patient Unit - KKE Architects

A visit to St David's hospice in the suburbs of Newport brought a change in scale. The brief was to provide a 15 bed in-patient unit and a place for families and patients to share one of the most precious times of human life. The building sensitively uses existing site features and makes a tranquil enclosed garden to the rear of the building which all of the rooms open onto. From the first point of arrival, to entering the building and moving through the seamlessly connected spaces, there is a subliminal sense of calm and a palpable sense of care. Material tactility, colour harmonies and every patient need have



Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe /
Glynn Vivian Art Gallery, Swansea



Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

been considered afresh. The result is the reflection of a strong vision of an enlightened client, and the ability of an architect to respond to this in a meaningful and beautiful way. The building reclaims the true meaning of 'care' and sets a benchmark for future healthcare buildings.

Glynn Vivian Art Gallery - Powell Dobson

The Glynn Vivian Art Gallery, Swansea was founded in 1911 by the original bequest of Richard Glynn Vivian. Since then it has continued to represent a significant cultural node within the city. The new reconfiguration and addition aspires to breathe new life to the existing offering and smooth out years of inherited convoluted circulation and accessibility issues. The introduction of the new sharply angled facade acts as a visual marker

within a traditional street scene, reinforcing the gallery's presence. Once inside, light, airy and temperate spaces are configured around a central double height atrium gallery. Whilst this project does not claim to break boundaries in terms of gallery design, its success lies in its commitment to unify the fragmented buildings from different historical periods, and embrace the highly specialised technologies of security, environmental control and art restoration. The result provides visitors and artists alike access to a carefully curated program of world-class installations and first hand experience of behind-the-scenes art restoration.

Yr Ysgwrn - Purcell

Travelling further afield to Trawsfynydd we were reminded once again of the role of architecture to unlock the visitor experience of historically



Cletwr, Tre'r ddôl, Machynlleth

important buildings. At Yr Ysgwrn the very charm of the location and its connection to one of Wales most famous poets, Hedd Wyn, was retained at the forefront of the carefully considered works. Worthy of particular mention is Beudy Llwyd, where on approach you are intentionally unaware of the new addition that lies in wait, partially submerged behind the original building. Fundamental timeless design principles of shelter, mass and light have been created through bold contemporary details, and a free flowing exhibition space captures the historical significance of the poet and place.

Cletwr - George + Tomos

Our final project once again challenged another familiar architectural typology. When asked to think of a road-side service station the last thing you imagine is an architect designed building that enthusiastically caters for a community's wider needs. Arriving at the new facilities at Cletwr you experience just that. A small oasis, carefully detailed from a restrained palette of materials that is radiating positive energy from within. A replacement to an out dated facility; the new building is relocated on

the site to take advantage of a south facing orientation that maximises natural daylight. This is a delightful building and it could be argued that its only drawback is the popularity of its own success.

On coming to award the Gold Medal for Architecture and Plaque of Merit it soon became clear that two projects stood out in terms of their architectural quality and the passion and drive of their enlightened clients. In both instances the buildings embody a wider understanding of the benefit of high quality architecture and the effect it can have on the lives of the people who use it. They also demonstrate that even in the most unlikely places, and for purposes not normally associated with it, high quality architecture has a far more significant impact than it is often given credit for. Le Corbusier once said that the purpose of architecture is to move you. We are therefore delighted to announce the 2018 Plaque of Merit has been awarded to Cletwr, and the Gold Medal for Architecture to St Davids Hospice.

Kay Hyde, Alun Jones

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth

Architecture Scholarship

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu pensaerniaeth a dylunio yng Nghymru ac fe'i dyfernir i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ledaenu ei ymwybyddiaeth o bensaerniaeth greadigol. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed.

Ysgoloriaeth: £1,500

Cefnogir gan Gomistwn Dylunio Cymru

Detholwyr: Paul Harries, Sara Hedd Ifan

Dyfernir yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth i **Bethan Scorey** Caerdydd

Eleni denodd yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth saith cais gan rai a oedd yn astudio mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

Dyfernir yr ysgoloriaeth i Bethan Scorey a raddiodd yn ddiweddar o Brifysgol Caerfaddon.


Roedd y ddau detholwr yn teimlo bod cais Bethan Scorey yn rhagorol. Cafodd ei chynnig, a oedd wedi'i seilio ar gynllun tai, ei gyflwyno'n hyfryd gyda lluniadau â llaw a phrintiau hardd yn ategu lluniadau pensaernïol mwy confensiynol. Yr hyn a wnaeth fwyaf o argraff ar y detholwyr oedd eglurder cryf y syniadaeth a soffistigeiddrwydd deallusol ei gwaith. Mae'n anarferol i rywun mor ifanc fod wedi datblygu athroniaeth mor glir.

Mae ei dyluniad a gyflwynwyd ar gyfer tai newydd yn Poundbury wedi'i ei seilio ar ymchwil cadarn i bensaerniaeth frodorol, ynghyd ag ymdriniaeth â ffurfiau confensiynol tai maestrefol. Canlyniad ei hymchwil yw ansawdd perthnasol cyfoethog a chyfifryddol, tra bod ei hymdriniaeth yn deillio ar gynnig radical, sy'n gwrthbwysio blerdwf maestrefol. Mae'r cynnig yn dangos meddwl trylwyr o'r dadansoddiad cyd-destunol ymlaen at ddyluniad manwl. Mae'r cynllun tai yn dangos sensitifrwydd a dychymyg mawr ar gamau cysyniadol a diagramaidd y datblygiad - mae iddo hefyd hygrededd cryf.

Mae'n amlwg bod gan Bethan Scorey ddiddordeb mewn pensaerniaeth ar raddfa



Bethan Scorey
Prosiect Prifysgol



Bethan Scorey
Harlech

ddynol ynghyd â'r ddynnameg sydd rhwng yr unigolyn a'r gymuned. Atseinir y pwyslais cymdeithasol hwn yn ffurf y cynllun, mae wal galchfaen yn gwau ei ffordd drwy'r cynllun tai, gan fynegi cysylltiadau cymunedol, tra bod yr uwch-strwythurau pren mwy preifat uwch ei phen - parth preifat unigolion. Mae'r mynegiant ffurfiol hwn hefyd wedi'i wreiddio yn ei dadansoddiad o aneddiadau traddodiadol, lle caiff tai eu clymu gyda'i gilydd tra bod ardaloedd preifat wedi'u gosod ar wahân. Mae'r ystyriaethau dylunio seiliedig ar ymchwil yn treiddio i lawr i'r berthynas rhwng y tŷ a'i breswlydd. Mae ei dawn ddadansodol wedi'i chyfateb yn ffodus gan ei gallu i ddylunio a darlunio. Ar y cyfan mae hwn yn ddarn o waith cydlynol a chynhwysfawr wedi'i gyflwyno'n hardd, ac yn dangos dawn doreithiog.

Mae ei chynnig ar gyfer MA seiliedig ar ymchwil, sy'n dwyn y teitl 'Y Castell Cyfoes yng Nghymru', yn cynnig y posibilrwydd o ymestyn a datblygu rhai o'r syniadau yr ymdriniwyd â hwy yn barod yn y gwaith y cyfeirir ato uchod. Yn y bôn, mae'n archwilio swyddogaeth cestyll yn niwylliant Cymru a chynnig dehongliad cyfoes o gestyll canoloesol Edward I. Wedi'u codi er mwyn meddiannu tir gorchfygedig Cymru, dadl Bethan Scorey yw, 'gyda newid mewn canfyddiad, gall muriau a oedd unwaith yn rhannu cymunedau ddod yn furiau sy'n dwyn tirwedd a phobl ynghyd'. Mae hwn yn swnio fel syniad ymchwil hynod ddiddorol, sy'n berthnasol iawn i Gymru ac yn ddatblygiad pellach o'i diddordebau ymchwil.



Bethan Scorey
Penfro

Cafodd y detholwyr hefyd eu cyfareddu gan gynnig Laura Haycock a'i gwaith gyda chwmmi y mae wedi'i gyd-sefydlu â phedwar o raddedigion eraill o'r enw 'Civic Soup'. Roedd ei gwaith yn ymwneud â phrosesau dylunio cyfranogol yn y gymuned a dangosodd lefel uchel o ymgysylltu â materion cymdeithasol. Roedd yn gorff cryf o waith mewn ymarfer - yn ystwytho cyd-destunau trefol i ddarparu cyfleusterau cymunedol. Roedd hwn yn wahanol iawn i'r ceisiadau eraill, gan fod yr holl gynigion eraill yn canolbwyntio ar waith personol a phrosiectau Prifysgol yn hytrach na phrosiectau bywyd go iawn. Bydd y dull hwn a ysgogir gan broses ar gyfer pensaerniaeth yn ennill mwy o ddylanwad yn y blynyddoedd i ddod, gan gyferbynnu ffurfiau ymarfer pensaernïol confensiynol sy'n canolbwyntio mwy ar y penodol na'r cyffredinol. Roedd y detholwyr yn edmygu lefel yr ymgysylltu â'r gymuned ac wrth eu bodd i weld cyflawniadau 'Civic Soup'.

Mae'r detholwyr yn gobeithio y bydd yr Ysgoloriaeth Bensaernïol yn cynorthwyo'r enillydd gyda'i hastudiaethau parhaus a'r prosiect ymchwil cymhellol.

Paul Harries, Sara Hedd Ifan

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth

Architecture Scholarship

This scholarship has been established to promote architecture and design in Wales. The scholarship is awarded to the most promising candidate to enable him or her to further his or her understanding of creative architecture. The scholarship is open to those under 25 years.

Scholarship: £1,500

Supported by the Design Commission for Wales

Selectors: Paul Harries, Sara Hedd Ifan

The Architecture Scholarship is awarded to **Bethan Scorey** Cardiff

This year the Architecture Scholarship attracted seven entries from those studying at both Welsh and English institutions.

The scholarship is awarded to Bethan Scorey who recently completed her degree at the University of Bath.

The selectors both regarded Bethan Scorey's submission as quite outstanding. Her submission which focused on a housing scheme was beautifully presented with lovely hand drawings and prints supplementing more conventional architectural drawings. What impressed the selectors the most was the great clarity of thought and intellectual sophistication of her work. It is unusual for someone so young to have developed such a clear philosophical position.


Her design proposal for new housing at Poundbury is built on a bedrock of research into vernacular architecture, along with a critique of conventional forms of suburban housing. Her research results in a rich, tactile materiality, whilst her critique results in a radical proposal, a counter to suburban sprawl. The proposal demonstrates a thoroughness of thought from contextual analysis through to detail design. The housing scheme shows great sensitivity and imagination at both conceptual and schematic stages of development – it also has great plausibility.

Clearly Bethan Scorey is interested in architecture at a human scale along with the dynamic between the individual and the community. This social emphasis is echoed in the form of the scheme, a limestone wall threads it's way through the housing scheme, expressing communal links, while more private timber superstructures sit on top - the private domain of



Bethan Scorey
Caernarfon

individuals. This formal articulation is also rooted in her analysis of traditional settlements, where housing is bound together whilst private areas are set apart. The research based design considerations percolate down to the relationship between the house and it's occupant. Her analytical ability is fortuitously matched by her capacity to design and



Bethan Scorey
Conwy



Bethan Scorey
Sprawl

delineate. Overall this is a very coherent and comprehensive piece of work beautifully presented, displaying a copious talent.

Her proposal for a research based MA entitled 'The Contemporary Castle in Wales' offers a possibility of extending and developing some of the ideas already pursued in the work referred to above. In essence, to examine the role of castles in Welsh culture and offer a contemporary interpretation of Edward I's medieval castles. Built to occupy the conquered territory of Wales Bethan Scorey argues that, 'with a shift in perception, walls that once divided communities can become walls that gather landscape and people together'. This sounds like a fascinating line of research, very pertinent to Wales and a further development of her research interests.

The selectors were also fascinated by the submission of Laura Haycock and her work with a company she co-founded with four other

graduates called 'Civic Soup'. Her work involved community based participatory processes in design and showed a high level of engagement with social issues. It represented a strong body of work in practice - intervening in urban contexts to provide community facilities. This was quite different to the other applications, as all other submissions focused on personal work and University projects rather than real life projects. This process driven approach to architecture will gain more influence in the coming years, opposing more 'top down' forms of conventional architectural practice. The selectors admired the level of community engagement and were delighted to see the achievements of 'Civic Soup'.

The selectors hope that the Architecture Scholarship will assist the winner in her ongoing studies and compelling research project.

Paul Harries, Sara Hedd Ifan

Ddoe + Heddiw: 80 Mlynedd o Gasglu Celfyddyd Gyfoes Cymru

Cynhelir arddangosfa arbennig gan Gymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru yn adeilad y Pierhead i gyd-daro ag Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Dyma gyflwyniad gan y curador Peter Wakelin.

Dros y pedair ugain mlynedd diwethaf, mae Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru wedi helpu i sicrhau bod cynhyrsgaeth artistiaid Cymreig yn cael ei gwarchod, ei rhannu a'i deall. Pan ddechreuodd ei gwaith, doedd yna fawr o bobl unman yng Nghymru a gâi'r cyfle i weld celfyddyd oedd newydd ei chreu na chelfyddyd oedd wedi'i gwneud yn eu gwlad eu hunain, ond erbyn heddiw mae'r sefyllfa wedi'i gweddnewid. Ers iddi sicrhau ei chaffaeliad cyntaf ym 1938, mae'r Gymdeithas wedi rhoi neu fenthycu bron i 900 o weithiau – y rhan fwyaf o bell ffordd gan artistiaid Cymreig cyfoes – i amgueddfeydd, orielau a sefydliadau cyhoeddus ym mhob rhan o'r wlad. Mae llawer ohonynt ar ddangos yn gyson: gwrthrychau hoff a chyfarwydd sy'n rhan o fywyd y genedl.

Mae casgliad dosbarthedig y Gymdeithas Celfyddyd Gyfoes wedi dod yn gofnod sylfaenol o'r gelfyddyd a grëir yng Nghymru. Fe ddichon iddo gael ei ystyried yn heriol ac yn arloesol ar adegau, yn ddiogel neu'n hen-ffasiwn ar adegau eraill; mae'n cynnwys gweithiau mawr a rhai llai. Y gamp fawr yw ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth - mae'n cyflwyno hanes yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yng nghelfyddyd Cymru ers wyth deg o flynyddoedd.

Mae'r arddangosfa hon yn defnyddio cyfran fechan yn unig o'r casgliad hwn i ddangos sut mae celfyddyd gyfoes o Gymru a'r gwerthfawrogiad ohoni wedi newid o 'ddoe' y 1930au i 'heddiw' yr unfed ganrif ar hugain. Mae rhai o'r gweithiau a gyflwynir yma'n annwyl i bawb, gall rhai eraill ysgogi ymateb mwy anesmwyth. Caffaelwyd llawer o'r rhai mwyaf adnabyddus yn eu plith gan brynwyr craff am gyfran bitw o beth y byddent wedi'i gostio ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Ymhlith yr artistiaid a gynrychiolir yma mae rhai y mae'n hen bryd eu hailwerthuso; wedi'r cwbl, mae chwaeth gyhoeddus, ffasiynau curadurol a'r hyn sy'n mynd â bryd artistiaid i gyd ar



Gwen John (1876—1939) Proffil Merch, tua 1918, olew a sialc ar gynfas, 46x32cm, Amgueddfa Cymru / Girl in Profile, c.1918, oil and chalk on canvas, 46x32cm, National Museum Wales

symud yn barhaus. Dylai casgliad cenedlaethol geisio sicrhau bod artistiaid sydd wedi'u hanwybyddu i raddau helaeth yn eu hoes eu hunain yn gallu cael eu hailystyried ochr yn ochr ag enwau o fri.

Os mai amcan dathlu'r pedair ugain mlwyddiant yma oedd cyflwyno estheteg unffurf, gallasai'r dethol wedi bod ychydig yn fwy cydgoriol, ond gwahanol yw'i bwrpas, sef dangos amrywiaeth eang o'r gelfyddyd a ychwanegwyd at y trysordy cenedlaethol. Gall detholiadau yn y dyfodol fynd ati mewn cant o wahanol ffyrdd. Dyna lawenydd casgliad sydd mor doreithiog o ran testunau, ystyron, cyfryngau, idiomau a chysylltiadau. Fel celfyddyd fawr ei hun, gall casgliad o'r fath fod yn holl gwmpasog, yn newid wrth i ni newid, yn caniatáu ail-ddehongli o hyd, gan ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.



Josef Herman (1911—2000) Mam a Phlentyn, 1945-50, olew ar gynfas, 103x87cm, Dinas a Sir Abertawe, Oriol Gelf Glynn Vivian © Ystâd Josef Herman / Mother and Child, 1945-50, oil on canvas, 103x87cm, City and County of Swansea, Glynn Vivian Art Gallery © Estate of Josef Herman



Shani Rhys James (1953—) Cysgodion, 1996, olew ar gynfas, 31x26cm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth © Yr artist / DACSoF Josef Herman / Shadows, 1996, oil on canvas, 31x26cm, The National Library of Wales, Aberystwyth © The artist / DACS



Brenda Chamberlain (1912—1971) Plant ar Lan y Môr, 1950, olew ar gynfas, 89x101cm, Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa © Ystâd Brenda Chamberlain / Children on the Sea Shore, 1950, oil on canvas, 89x101cm, Cyfarthfa Castle Museum and Art Gallery © Estate of Brenda Chamberlain



Sue Williams (1956—) Cydweithrediad, 2003, cyfryngau cymysg ar gynfas, 183x183cm, Prifysgol De Cymru © Yr artist / Collaboration, 2003, mixed media on canvas, 183x183cm, University of South Wales © The artist

Then + Now: 80 Years of Collecting Contemporary Art for Wales

A special exhibition held by the Contemporary Art Society for Wales in the Pierhead building to coincide with the Cardiff 2018 National Eisteddfod of Wales. Introduction by the curator Peter Wakelin:

For the past eighty years, the Contemporary Art Society for Wales has helped to ensure that the legacy of Welsh artists is preserved, shared and understood. When it began its work, few people anywhere in Wales had the chance to see newly created art or art made in their own nation, but today the situation has been transformed. Since it made its first acquisition in 1938, the Society has given or loaned nearly 900 works – the great majority by contemporary Welsh artists – to museums, galleries and public institutions in all parts of the country. Many of them are on regular display: familiar, favourite objects that are part of national life.

The Contemporary Art Society's distributed collection has become a fundamental record of the art created in Wales. It may have been considered challenging and cutting-edge at times, safe or outmoded at others; it includes great works and slighter ones. The great achievement is that it stands as a reflection of diversity – it presents the story of what has actually been happening in Welsh art for eighty years.

This exhibition use just a fraction of this collection to show how contemporary art from Wales and its appreciation have changed from the 'then' of the 1930s to the 'now' of the twenty-first century. Some of the works presented here are loved, others may provoke more unsettling reactions. Many of the best-known of them were acquired by perspicacious purchasers for a tiny fraction of what they would have cost a few years later. Among the artists represented here are some ripe for re-evaluation; after all, public tastes, curatorial fashions and the preoccupations of artists all shift continuously. A national collection should seek to ensure that artists largely overlooked in their own day can be reconsidered alongside famous names.



Erica Daborn (1951—) Ystafell Aros 1, 1979, tempera wy ar fwrdd, 127x89cm, Dinas a Sir Abertawe, Oriol Gelf Glynn Vivian © Yr artist / Waiting Room 1, 1979, egg tempera on board, 127x89cm, City and County of Swansea, Glynn Vivian Art Gallery © The artist

If the objective of this eightieth anniversary celebration had been to present a uniform aesthetic, the selection might have been more harmonious, but its purpose is different: to show a wide array of the art added to the national treasure house. Future selections may take a hundred different approaches. That is the joy of a collection so abundant in subjects, meanings, media, idioms and associations. Like great art itself, such a collection has the capacity to be universal, changing as we change, perpetually permitting reinterpretation, fulfilling the needs of both the present and the future.




Claire Curneen (1968—) Sant Sebastian, darn ceramig, 2009, 55x17x10cm, Dinas a Sir Abertawe, Oriol Gelf Glynn Vivian © Yr artist / St Sebastian, 2009, ceramic, 55x17x10cm, City and County of Swansea, Glynn Vivian Art Gallery © The artist



Merlyn Evans (1910—1973) Yr Harbwr, 1947, olew ar gynfas, 63x76cm, Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd © Ystâd Merlyn Evans / The Harbour, 1947, oil on canvas, 63x76cm, Newport Museum and Art Gallery © Estate of Merlyn Evans



Cedric Morris (1889—1982) Dowlais o'r Tomenni Lludw, Caeharris, 1935, olew ar gynfas, 59x72cm, Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa © Ystâd Cedric Morris / Bridgeman Images / Dowlais from the Cinder Tips, Caeharris, 1935, oil on canvas, 59x72cm, Cyfarthfa Castle Museum and Art Gallery © Estate of Cedric Morris / Bridgeman Images



Ernest Zobole (1927—1999) Cwm Rhif 5, tua 1965, olew ar galedfwrdd, 151x122cm, Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd © Ystâd Ernest Zobole / Valley No. 5, c.1965, oil on hardboard, 151x122cm, Newport Museum and Art Gallery © Ernest Zobole Estate

Mae'r Senedd, cartref eiconig Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghanol Bae Caerdydd yn lle i ymgasglu, i ysbrydoli ac i greu newid - yn fan lle gall pobl Cymru ddod ynghyd. Mae'n ganolbwynt i ddiwylliant Cymru yn ogystal â bod yn fan ar gyfer trafod a gwneud penderfyniadau.

Mae'n cynrychioli democratiaeth deg ac agored, ac mae tryloywder trawiadol yr adeilad yn croesawu pawb i weld y Cynulliad ar waith.

Celf mewn pensaernïaeth

Nod Richard Rogers, pensaer y Senedd, oedd greu adeilad sy'n ymddangos fel be bai'n codi o'r Bae ac yn dal sylw'r rheini sy'n cerdded heibio, gyda tho crog y gall pobl ymgynnull oddi tano. Y canlyniad yw adeilad sy'n symbol o ddemocratiaeth agored Cymru ac mae'n darparu etifeddiaeth barhaol i'n cenedlaethau yn y dyfodol drwy ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r Senedd yn cynnwys llawer o ddeunyddiau naturiol. Yn sefyll ar blinth concriid sy'n cynnwys colofnau, trawstiau a slabiau, mae'r Senedd wedi'i adeiladu ar sylfaen gadarn.

Mae elfennau gwydr yr adeilad yn caniatáu golau naturiol i lifo'i mewn, ac yn rhoi golygfa odidog o Fae Caerdydd a Phenarth yn ystod y dydd ac yn greu naws atmosfferig liw nos.

Mae llechi yn nodwedd bwysig arall o'r adeilad, ac fe'u defnyddir yn helaeth yn y Senedd ac o'i gwmpas. Daw'r llechi o Gwt-y-Bugail, ger Llan Ffestiniog, ac maent yn gadarn ac yn gwisgo'n dda, ac roedd eu hirhoedledd yn un o'r prif resymau dros eu dewis.

Celf yn y Senedd

Mae celf wrth wraidd diwylliant Cymru, ac mae'n adlewyrchu ein hanes cyfoethog o fynegiant artistig. Ar gyfer adeilad mor arwyddocaol i Gymru â'r Senedd, roedd yn bwysig bod darnau celf pwrpasol yn cael eu comisiynu ar gyfer yr adeilad hwn yn unig. Mae'r celf yn yr adeilad yn helpu i ddathlu'r bennod newydd yn hanes Cymru y mae'r Senedd yn ei chynrychioli.

Calon Cymru

'Calon Cymru' yw canolbwynt y Siambur, sef y siambur drafod yng nghraidd y Senedd. Mae'r

cyfansoddiad cromen wydr ddau fetr o led i'w weld ar lawr derw'r Siambur.

Crëwyd y gwaith gan Alexander Beleschenko o Abertawe, artist sy'n enwog drwy'r byd, i ddangos 'y Cynulliad wrth galon Cymru'. Mae'r gwaith yn dangos sgwrs rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru, gan ddangos syniadau sy'n dod i'r Siambur gan bobl Cymru, a syniadau sy'n gadael y Siambur i lunio Cymru.

Ffurfiwyd y gwaith drwy baentio patrwm haniaethol ar ddarnau o wydr 10mm o drwch, cyn eu chwalu, eu hailffurfio mewn mowld a'u bondio gyda resin. Mae'r cyfan yn eistedd ar haenen o wydr trwchus mewn ffrâm o ddur gloyw. Caiff y gwaith ei oleuo o'r tu mewn gyda golau ffeibr-optig.

"Mae'r gwaith ar ffurf delwedd haniaethol sy'n chwylio ac mae dotiau o wahanol faint yn estyn o ganol y gwaith. Mae deinameg y dotiau yn awgrymu bod grymoedd gwrthgyferbyniol ar waith - mae'r hyn sy'n estyn allan hefyd yn troi'n ôl tua'r canol. I mi, mae'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio, drwy wrando a gwneud penderfyniadau."

Alexander Beleschenko, 2006

Lliw yn y Senedd

Mae gan y Senedd oddeutu 600 o baneli acwstig i amsugno sŵn cefndir mewn ardaloedd o gwmpas yr adeilad. Gweithiodd yr artist ar ryw 270 ohonynt i ychwanegu lliw i'r Senedd.

Mae pob panel wedi'i wneud o ffrâm bren sy'n dal deunydd amsugno sain gyda defnydd niwtral arbennig wedi ei ymestyn yn dynn dros y cyfan. Martin Richman oedd yr artist a benodwyd gan y Cynulliad i ychwanegu lliw i'r Senedd.

Aed ati i ganolbwyntio ar ddefnydd eang y pensaer o baneli acwstig wedi'u gorchuddio â ffabrig, a'r modd y gellir defnyddio'r paneli hyn fel cyfrwng celfyddydol.

"Wrth fynd ati i addurno'r paneli acwstig, cawsom gyfle i gyflwyno lliw i'r adeilad newydd heb effeithio ar y broses adeiladu. Seiliwyd y delweddau ar y syniad bod egni a ffrwynwyd bellach yn cael ei ryddhau yng Nghymru. Caiff cymeriad arbennig Cymru ei adlewyrchu yn y



strata daearegol a gwaddod y mwynau sydd wedi greu cyfoeth diwylliannol a masnachol y wlad dros y blynyddoedd."
Martin Richman

Maes y Cynulliad

Crëwyd 'Maes y Cynulliad' gan yr artist gwydr enwog Danny Lane ac fe'i codwyd o flaen yr adeilad ger y lifftiau allanol. Cynlluniwyd y gwaith gyda golwg ar ymarferoldeb gan fod y gwydr yn cysgodi ymwelwyr rhag y gwyntoedd cryfion wrth iddynt ddringo'r grisiau i'r Senedd.

Un o brif nodweddion y maes yw'r newidiadau ymddangosiadol sy'n taro pobl wrth iddynt grwydro o'i amgylch. Gan mai gwydr trwchus yw'r paneli, mae'r gwaith yn dryloyw ac, o edrych arno o'r tu blaen, mae bron â bod yn anweladwy. Mae wynebau'r paneli'n adlewyrchu golau ac yn ddrych o'r hyn sydd o'u cwmpas, ac mae'r ymylon yn greu cyfres o linellau emrallt.

"Mae'r dyluniad yn faes o 32 panel gwydr clir wedi eu trefnu ar grid chweochrog. Gellir cerdded o amgylch y paneli sydd wedi'u gosod ar ogwydd o 30 gradd ac mae'r golau'n adlewyrchu oddi ar wyneb y gwydr. O un man cyfagos mae modd gweld drwy'r maes cyfan. Mae hwn yn waith syml yn ei hanfod sy'n ymateb creadigol i adeilad eithriadol sydd o bwys diwylliannol mawr."

Danny Lane

Y Man Cyfarfod

Y cerflunydd Richard Harris a ddewiswyd i saernio'r 'Man Cyfarfod', sef strwythur unigryw sy'n ymestyn allan o ochr ddeheuol plinth y Senedd. Dewisodd yr artist 39 darn o lechfaen o chwarel Cwt-y-Bugail, ger Llan Ffestiniog i greu'r gwaith. Yr un chwarel a ddarparodd y llechi a ddefnyddiwyd tu mewn i'r Senedd ac o'i hamgylch.

Dewiswyd pob carreg gan yr artist o blith y llechfeini crai olaf i gael eu cloddio yng Nghwt-y-Bugail gan ddefnyddio dulliau ffrwydro traddodiadol. Ar ôl i Richard Harris eu dewis, fe'u cludwyd i chwarel Ffestiniog i'w torri. Cymerwyd hyd at ddau ddiwrnod i dorri pob llechfaen i'w ffurf derfynol o fewn y gwaith.

"Mae'r llechi yn fawr ac yn grai o'u cymharu â'r llechi a ddefnyddir yn yr adeilad. Fe'i llifwyd a'u dwyn ynghyd i greu strwythur ysgafn ar ffurf adain sydd yn crymanu o amgylch cornel yr adeilad. Cafodd ochrau allanol y llechi eu gadael yn eu ffurf grai, ond mae ochrau'r llechi ar y tu mewn yn llyfn i greu gofod newydd a chlôs, lle rwy'n mawr obeithio y bydd pobl am dreulio amser."

Richard Harris

Mae'r Senedd yn agored drwy gydol y flwyddyn i weld democratiaeth ar waith, neu i fwynhau un o adeiladau mwyaf eiconig Cymru.

The Senedd, the iconic home of the National Assembly for Wales in the heart of Cardiff Bay is a place to gather, inspire and create change - the focal point around which Wales can gather. It's a hub for Welsh culture as well as a place for debate and decision making.

Representing a fair and open democracy, the striking transparency of the building welcomes all to see the Assembly at work.

Finding art in architecture

The Senedd's architect, Richard Rogers, envisioned a building that rises out of the Bay, engaging passers-by with an over-sailing roof that creates a place for people to gather and meet. The result is a building which is symbolic of Wales' open democracy and provides a lasting legacy to our future generations through sustainable development.

Many natural materials make-up the Senedd's features. Standing on a concrete plinth made up of columns, beams and slabs, the Senedd is built on a solid foundation.

The glass elements of the building allow natural light in, allowing a magnificent view of Cardiff Bay and Penarth by day and creating an atmospheric feel at night.

Slate is another important feature of the building, and is used extensively in and around the Senedd and it is sourced from Cwt-y-Bugail, near Llan Ffestiniog. Robust and hard-wearing, the slate was chosen with longevity in mind.

Art in the Senedd

Art is at the heart of Welsh culture, and reflects our rich history of artistic expression. For a building as significant to Wales as the Senedd, it was important that bespoke art pieces were commissioned exclusively for the building. The art within the building helps to celebrate the new chapter in Wales' history that the Senedd represents.

The 'Heart of Wales'

The 'Heart of Wales' is the centrepiece of the Siambr, the debating chamber at the Senedd's core. The two-metre wide glass composition sits slightly proud on the Siambr's oak flooring.

The installation was created by internationally-renowned Swansea-based artist Alexander



Beleschenko, to show 'the Assembly at the heart of Wales'. The work shows a conversation between the National Assembly and the people of Wales, representing ideas coming into the Siambr from the people of Wales, and ideas leaving the Siambr to shape Wales.

The work was formed by painting the abstract design onto plates of 10mm thick toughened glass, smashing the sheets and letting the smashed glass rest and form on a mould. Resin was added to the formed work to stabilise it, and the resulting dome was filled with resin and glass. The base of the work is a toughened glass sheet, and it rests on a steel frame.

"The imagery that embellishes the form is abstract and of a swirling pattern. It has a central focal point from which radiate arcs of different sized dots. The dynamic of these marks express a duality of forces - that which radiates out also conversely converge back to the centre. This is how I see the workings of the Assembly in that there is confluence of listening and decision making."

Alexander Beleschenko



Colour in the Senedd

The Senedd is fitted with around 600 acoustic panels to absorb background noise in areas around the building. Around 270 of these have been worked on to add colour to the Senedd.

Each panel is made up of a timber frame containing acoustic absorption material and covered by a stretched acoustically neutral fabric. Martin Richman was the artist appointed by the Assembly to add colour to the Senedd.

The project focused on the architect's widespread use of fabric-covered acoustic absorption panels throughout the building, and how these panels could be used as a vehicle for art.

"The treatment of the sound proofing panels became a means of introducing colour into the new building without compromising the build process. The imagery evolved from a sense of suppressed energy emanating from Wales. The geological strata and mineral deposits have given Wales its particular character, providing a wealth of culture and commerce."

Martin Richman

The Assembly Field

The 'Assembly Field', created by renowned glass artist Danny Lane, is located on the front corner of the building adjoining the external lifts. It has been designed and developed as a functional object to slow down high winds and protect pedestrians walking up to the front steps of the building.

An important value of the work is the apparent transformation that occurs as the viewer moves past or around it. The work is transparent and permeable, and when viewed from the front virtually disappears. The surfaces reflect and mirror the other elements and the surroundings, and the edges create a field of vertical emerald lines.

"The design is a field of 32 clear glass plates positioned on a hexagonal grid. As you move around the group they appear in rows at every 30 degrees by virtue of the hexagonal configuration. Surface will reflect surface and from an adjacent viewpoint you will be able to see through the entire group. The design has been reduced and reduced to its essence. It is a poetic response to an exceptional building of cultural importance."

Danny Lane

The Meeting Place on the Plinth

'The Meeting Place on the Plinth', created by sculptor Richard Harris, is a distinctive curving structure which emanates from the south side of the building's plinth. The 39 slate stones which form the work come from the same quarry, Cwt-y-Bugail, near Llan Ffestiniog, that supplied the slate used in and around the Senedd.

Each stone was selected by the artist from the last batch of raw slabs quarried at Cwt-y-Bugail using traditional blasting methods. The slabs were hand marked by the artist, and transported to the Ffestiniog quarry for cutting on the quarry's wire saw. It took up to two days to cut each slab to form one of the work's stones.

"The stones are large and raw compared to those used in the building, and they have been sawn and gathered together to create a delicate wing like structure that curves around the corner of the building. Although the stones have been left in their natural un-worked form on the outer edges, the inner curve is smooth - creating a new and intimate space, where I hope people will want to spend time."

Richard Harris

The Senedd is open year-round to see democracy in action or to simply enjoy one of Wales' most iconic buildings.

**Panel Sefydlog Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Standing Panel**

Cadeirydd / Chair
Mererid Velios

Luned Aaron
Gwenno Angharad
Elen Bonner
Rhys Llwyd Davies
Aled Wyn Davies
Peter Dutton
Lisa Gwilym
Rhian Hâf
Ann Fiona Jones
Sian Owen
Wil Rowlands
Pete Telfer
Diana Williams
Jamie Yeoman

**Swyddog Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Officer**

Robyn Tomos

**Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Sub-committee**

Cadeirydd / Chair
Thomas Williams

Is-gadeirydd / Vice-chair
Sera Wyn Walker

Ysgrifennydd / Secretary
Michael Goode

Simon Burgess
Ruth Davies
Anne Gibbs
Alun Hemming
Anthony Jones
Ceri Jones
Cindy Lambert
Catrin Llwyd
Margo Schmidt

**Detholwyr Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Selectors**

Kareen MacKinnon
Ingrid Murphy
Marc Rees

**Detholwyr Pensaerniaeth /
Architecture Selectors**

Kay Hyde
Alun Jones

**Detholwyr Ysgoloriaeth Pensaerniaeth /
Architecture Scholarship Selectors**

Paul Harries
Sara Hedd Ifan

**Dylunydd yr Arddangosfa /
Exhibition Designer**

Sean Harris

Cynorthwy-ydd / Assistant

Sera Wyn Walker

Bardd / Bard

Llyr Gwyn Lewis

Bardd Pensaerniaeth / Architecture Bard

Morgan Owen

Dylunio'r catalog / Catalogue design

Peter Marks - Peter Marks Wales

Dymuna Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol Caerdydd 2018 ddiolch:
The Cardiff 2018 Visual Arts Sub-committee wish to thank:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru /
National Assembly for Wales

Art Works

Crefft yn y Bae, Caerdydd /
Craft in the Bay, Cardiff

Oriel Canfas, Caerdydd / Cardiff

Chapter Caerdydd / Cardiff

Comisiwn Dylunio Cymru /
Design Commission for Wales

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru /
Royal Society of Architects in Wales

Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales

Derbyniwyd y cyfraniadau canlynol:
The following contributions were received:

£100	Garnon ab Ion Thomas, Mudiad Amddiffyn Celfyddydau Canton
£80	Gwobr Cyngor Tref Caerffili / Caerffili Town Council Award
£40	Gwobr Goffa Eluned Williams / Eluned Williams Memorial Award
£40	Gwobr Goffa Olwen Hughes, Rhymni / Olwen Hughes, Rhymney, Memorial Award
£10	Gwobr Thomas Daniel Varney, Trefdraeth / Thomas Daniel Varney, Newport, Award

Cefnogwyd gan grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru
Supported by a grant from Arts Council of Wales

mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru
in partnership with Arts Council of Wales



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

